

Cyngor Cymuned Llandwrog Community Council

**Cofnodion y cyfarfod o'r Gweithor Ymgysylltu a gynhaliwyd Nos Iau,
7 Tachwedd 2019 yn Neuadd Pentref Carmel**

**Minutes of the Consulting Working Group held at Carmel Village Hall,
Thursday, 7 November 2019 at 7.00pm**

Yn bresennol / Present

Cynghorwyr/ Councillors Alun Wyn Jones ; David C Davies; Eddie Willcox; Hywel J Owen ; Gwyn Owen Jones; Alan Patterson; Helen Hughes
David Roberts Rheolwr/Manager; Ann L Williams (Cyfieuthu/Translating); Aled Roberts (Cwmni Delwedd)

1 Croeso'r Cadeirydd – Chairmans Welcome

Croesawyd pawb oedd yn bresennol i'r cyfarfod gan Cadeirydd y Cyngor, Cadeirydd Alun Wyn Jones. Estynwyd groeso i Ann Williams i gyfieuthu y drafodaeth. Estynwyd croeso arbennig i Aled Roberts o Gwmni Delwedd yma i gyflwyno ei gwmni ac i ddangos l'r aelodau beth gall ei gwmni ei gynnig

2 Ymddiheuriadau am absenoldeb / Apologies for absences

Cyng. Gerwyn Owen

3 Datgan Buddiant Personol Neu Fuddiant sydd yn Rhagfarnu gan Aelodau ar unrhyw faterion ar y Rhaglen - Adran 51 Deddf Llywodraeth Leol 2000 / To Receive Disclosures of Personal and Prejudicial Interest by Members on any Items on the Agenda - Section 51 Local Government Act 2000

Ni wnaeth yr un aelod na'r Clerc ddatgan buddiant / No declarations made by any member on any items on the agenda.

4 Ymgysylltu

Croesawyd Aled Roberts gan y Cadeirydd i'r cyfarfod. Eglurodd y Cadeirydd mai gawahoddid ydoedd l Aled gyflwyno ei gwmni ac y gwaith ysydd yn cael ei gynnig. Pwysleisiodd y Cadeirydd and oedd y Cyngor wedi ymrwymo dim ar hyn o bryd.

Diolchodd y Cadeirydd i Cyng. Eddie Willcox am gysylltu gyda Aled yn dilyn Gweithgor Ymgysylltu 'nol yn mis Medi.

Adroddwyd gan y Rheolwr –

- Atgoffa yr aelodau fod y Cyngor wedi adnabod gwefan newydd fel blaenoriaeth uchaf ac wedi clustnodi £2000 ar gyfer y gwaith yn cyllideb eleni.
- Fod y gwefan bresennol ddim gynladwy gan and yw Adobe yn cefnogi y meddalwedd bellach. Ar hyn o bryd mae rhaid i'r Rheolwr ofyn i Cwmni Cymru1.net i wneud unrhyw newid i'r gwefan a llwytho gwyboadeth.
- Mae'n ofyn stadudol i'r Cyngor gynnal gwefan ac arddangos gwybadeth yn gyhoeddus

Cyflwyniad gan Aled Roberts, Cwmni Delwedd

Cwmni wedi ei sefydlu ers 21 mlynedd

Yn rheoli dros 350 o wefannau byw
Yn rheoli nifer o wefannau i Gynghorau Tref a Chymuned – Cyngor Tref Caernarfon yn un
Yn defnyddio Google Webmasters – sydd yn galluogi defnyddwyr i ddod ar draws gwefannau ynghynt ar y “search engines”
Yn cynnig gwefan Cymraeg am ddim
Yn gwmni Cymraeg lleol – swyddfa yn Y Galeri a pawb yn siarad Cymraeg
Yn cynnig dylunio logos ac ati
Yn cynnig cefnogaeth ffotograffiaeth – lluniau o aelodau ac ati
Yn cynnig cymorth i sefydlu tudalen Facebook
Yn cynnig hyfforddiant i'r Cyngor fel rhan o'r pecyn
Cefnogaeth systemau – e byst i aelodau trwy wefan, e bost penodol i'r Cyngor etc

Gosod Data ar y gwefan - Tri dewis – Delwedd i lawr llwytho dogfennau ac erthyglau, Cyngor i lawrlwytho neu cyfuniad o'r ddau. Yn bwysig cael gwefan ymatebol. Bydd unrhyw gais yn cael ei osod ar y gwefan mewn 24 awr

Cyfyngau Cymdeithasol - Gellir trefnu fod yna “feed” awtomatig ar y gwefan i Facebook neu Twitter.

Diogelwch - Google yn ffafrio safleoedd diogel, gwefannau Delwedd yn cydymffurfio a gofynion Google/GDPR

Sylwadau Aelodau

AWJ – sut fydd gwefan bresennol yn dod i ben?

AR – byddwn yn sefydlu gwefan newydd gyda'r un enw neu enw arall. Byddwn yn cysylltu gyda'r “hosting” presennol y Cyngor i ddod a hwn i ben ac wedyn mynd yn fyw gyda'r gwefan newydd. Nid oes cost yn arferol i ddod a trefniadau i ben.

HH – yn gofyn os oedd yna cost i aelodau i dderbyn cyfeiriad e bost newydd ?

AR – na, mae'r gwasaneth e byst yn rhan o'r pecyn

Rheolwr – beth yw'r amserlen petai'r Cyngor yn penderfynu archebu'r pecyn?

AR – oddeutu 8 wythnos. Byddai angen trafod ac cynnal cyfarfod o bosib

AP – yn bryderus i'r Cyngor dderbyn sylwadau negatif trwy sefydlu tudalen Facebook

AR- mae Facebook yn gyfrwng cyhoeddus ac nid oes modd gwahardd defnyddwyr postio sylwadau negyddol

EW – beth yw y costau?

AR – yn cadarnhau mai **£1,299.50** ydi cost sefydlu y gwefan newydd.

Byddai angen ychwnaegu

- trwyddedau ychwanegol “Content Management Licence” (opsiwnal) **£99.50**
- Ffi Hostio (wedi ystyried discownt o 50%) **£99.50**
- Cofrestru gyda “Search Engine” (opsiwnal) **£99.50**
- SSI Secure Site **£47.99**

Cyfanswm **£1,645.99**

GDPR Compliance (opsiwnal) £399.95 **un tro**

GDPR Compliance Templates £150.00 **un tro**

GDPR Compliance Cookie Notice (opsiwnal) £39 y flwyddyn

Cyfanswm £2,234.94

Cost Blwyddyn 2 –

Cynnal y gwefan £324.88

Costau “hosting” £99.50

SSI Secure Site (opsiwnal) £47.99

GDPR Compliance Cookie Notice (opsiwnal) £39 y flwyddyn

Cyfanswm £511.37

Cadeirydd – yn diolch i Aled am ei gyflwyniad.

Gadawodd Aled am 7:45

Gofynnodd y Cadeirydd i aelodau aros am ychydig funudau i drafod y pecyn.

HJO – yn argyhoeddedig y dylai'r Cyngor symud ymlaen a prynu'r pecyn, gan fod Y Cyngor wedi clustnodi cyllideb ar gyfer gwefan newydd ac ei fod yn flaenoriaeth blaenaf y Cyngor. Bydd rhaid i'r Cyngor fod yn ymwybodol fod rheolau ariannol y Cyngor yn gofyn am tri pris am unrhyw archeb dros £1,000. Mae hwn yn faes arbennigol a gellir dadlau nad yw'n bosib gofyn am tri pris o ystyried gofynion y Cyngor. Os am fynd am pecyn Delwedd bydd rhaid rhoi y rheolau ariannol i'r neilltu cyn neud unrhyw benderfyniad.

DCD – yn cynnig fod y gweithgor yn argymhell i'r Cyngor brynu'r pecyn cyflawn fel sydd wedi ei gyflwyno gan ei fod yn ymateb i holl ofynion y Cyngor yn benodol yn gwmni lleol, yn cynnig gwasanaeth Cymraeg, hyfforddiant am ddim, yn cwrdd a gofynion GDPR , sefydlu cyfeiriadau e byst newydd i aelodau ac fod y pris oddi fewn y gyllideb

Argymhelliad unfrydol i'r Cyngor (cynnig DCD eilio HJO)

- i) Fod y Cyngor yn archebu y pecyn cyflawn sydd wedi ei gynnig gan Cwmni Delwedd i sefydlu gwefan newydd.***
- ii) Fod y Cyngor yn ymddiried yn y gweithgor trwy gyd-weithio gyda Delwedd ar y cynnwys, enw ac yn y blaen.***

Recommendation to Council (DCD proposal seconded HJO)

- i) That the Council purchases the complete package offered by Delwedd to establish a new website.***
- ii) That the Council entrusts the working group to work with Delwedd on the content, domain name and so on.***

Bydd y gweithor yn cyfarfod yn fuan yn dilyn Cyngor llawn 18 Tachwedd 2019 (yn amodol i'r Cyngor dderbyn yr argymhelliad) i drafod cynnwys ac ati

Daeth y cyfarfod i ben am 7:55 yr hwyr

Cafwyd y Cofnodion yn rhai cywir -

Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor

Dyddiad -